
# heddwch

gwanwyn 2001
rhifyn 25
am ddim (neu gyfraniad)

cylchgrawn CND Cymru




ffotograff: andrew mccoll

## "Pan fydd y protestwyr yma'n sefyll yn heddychlon y tu allan i glwydi'r gwersyll, maent yn mynegi nid yn unig eu gwrthwynebiad i arfau niwclear, ond hefyd eu pryder a'u gofal am y ddynolryw a'r amgylchedd. Maent yn gweithredu mewn heddwch dros heddwch."

**Dr Richard Edwards, Aelod Cynulliad Llafur Preseli Penfro yn siarad yn y Cynulliad Cenedlaethol**

**tu fewn:**

neges Bruce Kent i Tony Blair ★ Ray Davies: o Gaerdydd i Balesteina
Seneddwyr Cymru'n cefnogi diarfogi ★ Pleidleisio dros heddwch a chyfiawnder?

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**

## barn

# Nid bygythiad pellennig mo Trident - mae'n broblem fyd-eang

Mae Gwarchae Fawr mis Chwefror yng nghanolfan arfau niwclear Trident Prydain yn Faslane yn yr Alban, a drefnwyd gan Trident Ploughshares ac CND yr Alban, wedi magu hyd yn oed mwy o bwysigrwydd. Mae ethol yr Arlywydd Bush, ynghyd â datganiadau a wnaed yn y wasg Americanaidd gan Robin Cook, a'r ffaith i Mr. Blair "groesawu dialog" gyda Bush ar Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol arfaethedig yr UD (NMD) yn golygu nad oes nemor ddim amheuaeth nad yw Mr. Blair eisoes wedi sicrhau llywodraeth newydd yr UD, yn enw'r "Berthynas arbennig" rhwng y DU a'r UD, y bydd y llywodraeth Brydeinig yn rhoi ei chefnogaeth i raglen NMD yr UD. Byddai rhaglen o'r fath yn ennyn ras arfau newydd ac mae'n fygythiad ychwanegol i heddwch.

Roedd y gefnogaeth i'r gwrthdystiad yn Faslane o Gymru i'w groesawu. Fodd bynnag, doedd hi ddim yn ddigon i wneud barn gyhoeddus yng Nghymru yn ymwybodol o fygythiad difrifol Trident ac NMD i heddwch. Carwn apelio at bob un o'n haelodau i beidio â gadael y gwaith ymgyrchu i eraill. Mae aelodaeth CND Cymru mewn perygl o adael i eraill wrthdystio dros heddwch ar eu rhan.
Os yw CND Cymru yn mynd i gynyddu ei ddylwanwad ar farn y cyhoedd yng Nghymru, tra bod rhai o'n gweithredwyr wrthi'n protestio'n ddidrais mewn mannau eraill, mae'n bwysig fod cyfle i rai sy'n caru heddwch ac sy'n cefnogi ein hachos i weithredu mewn cydgadernid yng Nghymru.

Mae Faslane, i'r rhan fwyaf o bobl, rywle yn yr Alban, yn ddigon pell o Gymru. Mae hyd yn oed y perygl yn ymddangos yn bellennig. Dyw bygythiad trychineb niwclear oherwydd Trident ddim yn bell i ffwrdd. Mae'n fyd-eang. Dylai Chernobyl fod wedi dysgu hynny i ni.

**David Morris**
**Cadeirydd CND Cymru**

## faslane

# Y Gwarchae Gwirioneddol Fawr!

Ar y 12fed Chwefror ymunodd grwp o ymgyrchwyr o Gymru â bron 1,000 o weithredwyr a ymgasglodd ger gwersyll arfau niwclear Faslane. Aethant ati, yr hen a'r ifanc, gweinidogion, gwleidyddion a gwersyllwyr heddwch, i adeiladu trybeddau a llunio dyfeisiadau cloi, eistedd ar y ffordd, canu, gweddïo a chwerthin. Yr un oedd eu nod - cau'r sefydliad sy'n gartref i Trident am y dydd. Hwn oedd y gwrthdystiad mwyaf lluosog a mwyaf bywiog ers y 1980a i wrthwynebu polisi Prydain ar arfau niwclear. I'r rheini a ymunodd ynddo, a'r rhai a'i gwelodd ar y teledu, daeth â gobaith newydd am fyd heb arfau niwclear.

O'r 385 a restiwyd yn y Gwarchae Mawr, cafodd pawb ond pedwar eu rhyddhau. Cafodd tri o'r rheini fechnïaeth ar ôl ymddangos ger bron llys, ond cafodd Jenny Gaiawyn, myfyrwraig o Brifysgol Cymru, ei charcharu'n syth am ddirwy oedd heb ei thalu. Mae wedi ei hyddhau erbyn hyn.



Carol Naughton

## Tan tro nesa!

Dyna oedd y geiriau o ffarwel ar derfyn y Gwarchae Mawr yn Faslane ar y 12fed o Chwefror, ar lafar neu drwy'r e-bost. Roedd fy ymateb yn gymysg. Roedd y digwyddiad yn andros o lwyddiant o ran rhannu egni o gwmpas y lle gyda phosibiliadau enfawr o dwf i'r mudiad o ganlyniad iddo. Ac eto, dydyn ni ddim am i weithredoedd gwarchae ar Faslane fynd yn rhyw fath o sefydliad. Byddai hynny'n awgrymu ein bod yn derbyn fod Trident yn mynd i fod gyda ni am y dyfodol rhagweladwy. Craidd safiad Trident Ploughshares yw llwyr wrthod derbyn y statws quo troseddol. Felly rhaid i bob un ohonom wneud y cwbl a allwn i sicrhau nad yw'r holl fegawatiau hyn o bwer pobl ddim yn gwneud i'r goleuadau losgi'r fwy disglair am ychydig yn unig - ond, yn hytrach, eu bod yn cael olwynion diarfogi i droi'n gyflymach gan fod hwn yn fater brys.

Gwnaed y pwynt yma wrthyf gan Sylvia Boyes, sydd newydd ei chael yn ddieuog, ynghyd â River, gan reithgor yn Llys y Goron Manceinion ar gyhuddiadau o gynllwynio i wneud difrod troseddol i HMS Vengeance. Gofynnais i Sylvia onid oedd gwybod fod 1.9 miliwn o bobl wedi gweld rhaglen bwerus Everyman, yn adrodd y stori, yn gwneud yn iawn am fethu cyrraedd y llong danfor â'i morthwyl. "Rhywfaint" meddai, "ond dwy'n dal yn siomedig. Yr hyn roeddwn i am ei wneud oedd atal y llong danfor yna rhag gallu gweithredu."

## Pa mor oleuedig fydd yr Arglwyddi?

Mae dyfarniad Uchel Lys yr Alban ar Atgyfeiriad yr Arglwydd Adfocad wrth law. Ym mis Hydref/Tachwedd, cynhaliodd y llys wrandawiad naw-diwrnod i archwilio'n fanwl y dadleuon fod Trident yn anghyfreithlon a bod gan ddinasyddion cyffredin hawl i weithredu. Mae'r barnwyr eisoes wedi bod wrthi ers hydoedd yn gwneud eu gwaith cartref, a gwêl rhai hynny fel arwydd da, ond rydym eisoes wedi penderfynu y bydd ymateb bywiog iawn i beth bynnag fydd cynnwys y dyfarniad. Wedi'r cwbl, dydyn ni ddim yn aros yn ostyngedig am oleuni gan y llys ar pa un ai ydym yn iawn neu beidio. Er y dylem fod yn ddigon gwylaidd i dderbyn y gall goleuni ddod o unrhyw du, diddorol iawn fydd gweld pa mor oleuedig fydd yr Arglwyddi.

Byddwn yn ôl yn Llys y Goron Manceinion ar y 3ydd o Ebrill ar gyfer achos Rosie James a Rachel Wenham a wnaeth ddifrod i HMS Vengeance nôl ym mis Chwefror 1999. Buont ger bron llys yng Nghaerhirfryn y llynedd, heb ganlyniad, ac eto ym mis Medi, lle cafwyd hwy'n ddieuog ar un cyhuddiad, mân gyhuddiad o niwed troseddol, gyda'r rheithgor yn methu penderfynu ar y cyhuddiad mwyaf difrifol. Er gwaetha'r ffaith fod hyn wedi mynd ymlaen cyhyd, mae'r ddwy yn edrych ymlaen at gyfle arall eto i osod yr achos yn erbyn Trident ger bron rheithgor.

### 1170 wedi eu restio hyd yn hyn

Ni chafwyd dyddiad eto ar gyfer achos llys Dau Ploughshares y Jiwbilî: Susan van der Hijden a Martin Newell a wnaeth ddifrod i gerbyd cludo ergydion Trident ym mis Tachwedd, er y gellid tybio mai ym mis Ebrill neu ddechrau Mai y bydd. Susan a Martin yw'r unig ddau o'n hymgyrchwyr sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd, a rhoddir manylion cysylltu â nhw isod.

Cafwyd cyfanswm o 96 o achosion llys, a dyddiadau ar gyfer 27 arall, gydag eraill yn disgwyl dyddiad. Mae'r nifer a restiwyd ar yr ymgyrch wedi cyrraedd 1170 a threuliwyd 1010 o ddiwrnodau yn y carchar (heb gyfrif amser mewn celloedd heddlu).Mae llawer o achosion wedi cael eu gohirio hyd oni chlywir y dyfarniad ar Atgyfeiriad yr Arglwydd Adfocad ac mae eraill yn disgwyl am wahanol achosion apêl. Mae rhyw 40 o achosion yn dal i ddisgwyl am wrandawiad ger bron llysoedd Helensburgh a Dumbarton gyda gwysion yn dal i fynd allan am fis Awst diwethaf cyn iddyn nhw ddechrau meddwl am y Gwarchae Mawr.

Mae cynlluiniau ar y gweill ar gyfer y gwersyll yn Aldermaston o'r 10fed i'r 15fed o Fai pan fwriadwn roi'n holl sylw i'r cam cyntaf hwn yn y lein gynhyrchu niwclear. Bydd y gwersyll hwn yn gyfle da i elwa ar y gwaith recriwtio a wnaed ar gyfer y Gwarchae Mawr.

***David Mackenzie Trident Ploughshares***

# Seneddwyr Cymru yn cefnogi'r gweithredoedd

Cawsom sawl neges ddiffuant o gefnogaeth i'r gweithredoedd yn Faslane. Roedd y rheini a ddanfonodd negeseuon neu sydd wedi arwyddo deiseb Trident Ploughshares yn cynnwys:

**Aelodau'r Cynulliad:**

**Democratiaid Rhyddfrydol** - Kirsty Williams, Michael Bates a Karen Sinclair.
**Llafur** - Richard Edwards a John Griffiths.
**Plaid Cymru** - Dafydd Wigley, Cynog Dafis, Geraint Davies, Rhodri Glyn Thomas, Jocelyn Davies, Elin Jones a Helen Mary Jones.

**Aelodau o Senedd San Steffan:**

**Plaid Cymru**- Dafydd Wigley, Elfyn Llwyd a Simon Thomas
**Llafur** - Martin Caton a Paul Flynn

**Aelod o'r Senedd Ewropeaidd:**

Plaid Cymru - Jill Evans

Mae Rowan Williams, Archesgob Cymru, a'r Athro Ken Booth (Aberystwyth) yn gefnogwyr hefyd.

Llongyfarchiadau a diolch o galon i Trident Ploughshares ac CND Yr Alban am drefnu'r Gwarchae Mawr.

Cymerwch ran yn y weithred uniongyrchol nesaf (gweler isod)! Os nad ydych am gael eich restio eich hun, mae angen cefnogwyr a sylwedyddion cyfreithiol bob amser. Cysyllter â: Trident Ploughshares (01324) 880744 ebost: tp2000@gn.apc.org; Ray Davies neu Jill Stallard (Cysylltiadau t. 14).




Carol Naughton

**Chwith:**
*Meddai Ray Davies, is-gadeirydd CND Cymru: "Dyma ni'n llamu o'r bws a cherdded ar hyd y ffordd tuag at y gwersyll yn canu - rhaid bod yr heddlu'n meddwl ein bod ni'n rhan o'r cabaret! Fe ganon ni "Cwm Rhondda", "Gwaed ar eu dwylo"; Hen wlad fy nhadau"; "Internationale" wrth i ni gerdded i lawr i'r Brif Glwyd. Ymunodd rhai eraill, yn cynnwys George Galloway a Tommy Sheridan â ni a dyma ni i gyd yn eistedd ar y ffordd yn y fynedfa gyda'n baneri a'n Dreigiau Coch. Gosododd David Morris ddatganiadau o gefnogaeth i'r gweithredoedd gan aelodau'r Cynulliad ar y ffens. Dyma ni'n cloi'n hunain i'r ffens, a tua 7.30am llamodd yr heddlu i mewn ac wedi tipyn o waith caled, ein tynnu o'r pentwr a'n restio."*

## Aldermaston

# Ymunwch â Gwersyll Diarfogi!

**Y sioc yn Faslane yw gweld llongau tanfor Trident yn harddwch ysgubol y loch. Effaith i'r gwrthwyneb a gaiff SAA Aldermaston - mae normalrwydd y lle ynddo'i hun yn peri anesmwythyd mawr.** Mae'r SAA ryw ddeng milltir o Reading, ger yr M4. Mae pobl leol yn yfed a chwarae chwaraeon y tu fewn i'r ffens. Mae'r SAA yn cyfrannu at elusennau lleol, mae ganddi hyd yn oed warchodfa natur ar ei thir. Yn wir, mae'n gymaint rhan o fywyd lleol nes y cafwyd hyd i blwtoniwm mewn ffa gwyrdd a dyfwyd yn yr ardal.

On er gwaethaf logo newydd a chyflwyniadau sleidiau llithrig i grwpiau lleol, mae SAA Aldermaston yn dal i fod yn ffatri fomiau niwclear. Er y 1950au, dyma lle ganed bomiau niwclear 'annibynnol' Prydain - bomiau rhydd-ddisgyn WE177, Polaris, Trident. A'r dynion a'r menywod sy'n gweithio yno fydd yn datblygu'r to nesaf o arfau hefyd. Mae'r Adroddiad Blynyddol diweddaraf yn amlinellu ymchwil i uwchraddio'r ergydion - yn eu geiriau eu hunain, 'to get a bigger bang for your buck'.

Cynhyrchir yr ergydion yn adeilad A90 dan wyliadwraeth gaeth. Cânt eu cydosod yn derfynol ar safle Burghfield chwe milltir i ffwrdd, lle cânt eu llwytho ar lorïau a'u gyrru i fyny i Faslane.

Rhoddwyd y cytundeb preifat am reolaeth y SAA y llynedd i gonsortiwm BNFL, Lockheed Martin a Serco - grwp â record o gamreolaeth niwclear a rheolaethau diogelwch gwael.

Fel Faslane, mae gan Aldermaston ei wersyll heddwch - gwersyll menywod unwaith y mis sydd wedi helpu i herio normalrwydd y SAA ers 13 blynedd. Mae'r Grwp Ymwybyddiaeth Niwclear lleol (NAG) wedi gweithio'n ddiflino hefyd i fonitro llygredd a diogelwch y confois niwclear, ac wedi lleisio pryderon ynglyn â chlystyrau lewcemia a bygythiadau eraill i iechyd. Llwyddodd NAG i ennill arolwg barnwriaethol yn yr Uchel Lys ar gyfreithlondeb trwydded y SAA i ollwng deunydd niwclear i'r amgylchedd. Grwandawodd y llys ar ddadleuon fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi methu ystyried cyfreithlondeb Trident pan roddodd drwydded i'r SAA. Rydym yn dal i ddisgwyl canlyniad yr arolwg hwnnw.

Ni ellir cau SAA Aldermaston fyth - bydd hwn yn safle llygredig am byth. Gweledigaeth ar gyfer dyfodol i'r SAA yw i'r sefydliad gysegru gwybodaeth arbenigol ddiamheuol ei wyddonwyr a'i dechnegwyr i ddatblygu dulliau storio a dadlygru mwy diogel, dadgomisiynu ergydion niwclear, a gwireddu ufudd-dod Prydain a gwledydd eraill i gytundebau ar arfau niwclear.

Ychydig sy'n hysbys am SAA Aldermaston - dyw'r safle ddim yn ymddangos ar unrhyw fap. Er mwyn newid y SAA o fod yn lle sy'n ymchwilio i ergydion a'u cynhyrchu, rhaid i ni greu mwy o drafodaeth yn y cylch a chyflwyno mwy o her i normalrwydd dinistr torfol.

**Helen Harris**

heddweithredu! Ymunwch â Gwersyll Diarfogi nesaf TP yn Aldermaston, Mai 10 - 15. Canwch, dawnsiwch, eisteddwch ar y ffordd, torrwch y ffens, dewch â Trident ger bron llys yng nghanol tre Reading, gweddïwch, cadwch wylnos, cynlluniwch ar gyfer gweithredu pellach. Gwyr yr Alban fod anghenfil yn y loch - beth am atgoffa Lloegr fod SAA Aldermaston yn cynhyrchu angau.

# pigion y newyddion

## Tireless wedi torri: y llong danfor niwclear yn Gibraltar

Creodd Gweinidog Tramor Sbaen, Josep Pique, gythrwfl yn ddiweddar drwy alw Gibraltar yn 'siop duty-free'. Os mai dyna ydyw, mae ganddi anghenfil ar ei silffoedd ar hyn o bryd, diolch i'r Llynges Brydeinig. Mae HMS Tireless, y llong danfor niwclear Brydeinig sydd â phroblemau gyda'i system oeri, wedi bod yn mynd drwy broses atgyweirio ddiddiwedd yn Gibralter, ers mis Mai 2000.

Mae Prydain wedi cytuno gyda Sbaen y bydd yn symud HMS Tireless o Gibraltar erbyn y 19eg o Fai. Aeth y llong danfor i mewn i'r dociau yn naw mis yn ôl pan ddaethpwyd o hyd i hollt yn system oeri ei adweithydd niwclear PWR, a achosodd storm o brotestio yn y drefedigaeth nad oes ganddi gyfleusterau ar gyfer gwaith atgyweirio mor arbenigol. Mae sïon yn Gibraltar a Sbaen y gallai'r namau i system oeri'r llong danfor fod wedi bygwth ymdoddiad niwclear ar un pwynt. Mae'r Llynges Frenhinol yn awr yn bwriadu llusgo'r llong danfor i Brydain os na ellir ei hatgyweirio erbyn Mai 19eg. Mae ymgyrchwyr yn Gibraltar yn cysylltu'r hyn sy'n ymddangos fel cynnydd yn yr achosion o gancr yn y pum mlynedd diwethaf â'r llongau tanfor niwclear sydd wedi angori yn y drefedigaeth, pryder a rennir gan eu cymdogion yn Andalwsia.

## Awyrennau Bomio 'Stealth'yr UD yn hedfan dros Gymru

Dywedir fod contracwyr o'r UD yn uwchraddio gwersyll Awyrlu'r UD yn Fairford, Swydd Gaerloyw, yn barod i dderbyn awyrennau bomio niwclear 'Stealth' yr UD. Mae'r UD yn edrych am ffyrdd o ddefnyddio ei hawyrennau Stealth yn fwy effeithiol, ac mae am "ragosod" mewn tair canolfan dramor (Guam, yn y Môr Tawel, Fairford, Lloegr a Diego Garcia ym Môr India). Dyw'r UD ddim wedi gwneud cais ffurfiol i'r Llywodraeth Brydeinig eto, ond mae'r Gweinidog Amddiffyn, Geoff Hoon wedi ateb cwestiynau am yr awyrennau bomio drwy ddweud: *"Does gennym ni ddim gwrthwynebiad amlwg mewn egwyddor. Ac fe fyddem yn barod i ymateb i'r cais hwn pan ddaw ... ddylai hynny ddim peri syndod i neb. Mae gennym hanes o groesawu awyrennau Americanaidd yma dros y blynyddoedd."* Mynegwyd pryder am y cynlluniau gan lawer o ASau y Blaid Lafur yn ogystal â Gweinidogion yn Duma Rwsia.

heddweithredu! USAF Fairford yw'r gwersyll UD agosaf at Glawdd Offa. Mae'n bur debyg y bydd gweithredu yno yn y dyfodol. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag CND Cymru.


**Pecynnau cardiau post heddwch!**

Pecyn o 10 cerdyn heddwch a chyfiawnder amrywiol £3 yn cynnwys cludiant gan Masnachu CND Cymru 72, Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN (01792) 830 330

## Prydain yn ymrwymo £1.9 biliwn i awyrennau milwrol newydd i frawychu plant Cymru

Mae ymarferion awyr milwrol dros Gymru eleni wedi peri galw newydd am atal y bwrn gwarthus yma ar ein bywydau. Mae rhai grwpiau'n poeni am oblygiadau diogelwch dal i hedfan hen awyrennau at ymarferion milwrol. Fodd bynnag, mae CND Cymru yn sicr na ddylai awyrennau milwrol fod yn hyfforddi ar gyfer hedfan yn isel unrhywle, ac y byddai 'hedfan uchel' yn llawn mor





annerbyniol. Pan ddaw taw ar sgrechian y jetiau Harrier yn ein hwybren Gymreig, bydd gan yr awdurdodau rywbeth hyd yn oed yn fwy milain a llawn mor atgas i gymryd eu lle. Mae'r WA yn bwriadu prynu 150 o awyrennau milwrol cyd-drawiad yr UD ar gyfer y Llynges Frenhinol. Mae Lockheed Martin a chwmni Boeing yn cystadlu am y cytundeb i ddatblygu'r jet.

Mae Cyngor Siapan yn erbyn Bomiau A a H wedi ailgychwyn ei ymgyrch yn erbyn ymarferiadau hedfan isel gan awyrennau milwrol yr UD fel rhan o'i ymgyrch i orfodi gwersylloedd milwrol yr UD allan o Siapan, ac o blaid Siapan ddi-niwclear.

## Chernobyl: pedyll ffrio a thanau

Bymtheg mlynedd wedi'r gyflafan yng ngorsaf ynni niwclear Chernobyl, mae'r adweithyddion olaf wedi cau o'r diwedd, ond gan adael ar eu hôl waddol erchyll o lygredd ymbelydrol. Gan anwybyddu'r effeithiau ar iechyd a'r amgylchedd, mae'r awdurdodau yn dal i fynnu ar "lanhad seicolgeol". Roedd adroddiadau yn y wasg am gau'r adweithyddion fis Rhagfyr diwethaf yn aml fel pe baent yn creu ymdeilmad fod "popeth yn iawn" yn awr, o'r diwedd. Diben yr Awdurdod Ynni Atomig Rhyngwladol (IAEA) yw hyrwyddo ynni niwclear, nid ei lesteirio, ac mae wedi ymdrechu'n gyson i fychanu canlyniadau damwain 1986. Cafwyd astudiaeth dan nawdd y IAEW ym 1991, a adroddodd mae prif effeithiau Chernobyl ar iechyd oedd rhai "seicolegol", ond a fethodd ystyried iechyd gweithwyr y gwasanaethau ymateb brys neu'r bobl a symudwyd allan o'r gylchfa eithrio 18-milltir o gwmpas yr orsaf, y mae 13,000 ohonynt wedi marw o afiechydon yn gysylltiedig ag ymbelydredd. Methodd yr astudiaeth gyfeirio chwaith at gyhyd y cymer i gyfraddau uwch o gancr eu hamlygu eu hunain.

Mae llywydd y Banc Ewropeaidd dros Ailadeiladu a Datblygiad (EBRD) wedi argymell y dylai Ukcrain dderbyn 'benthyciad' o $215 miliwn i gwblhau'r gwaith o adeiladu dau adweithydd niwclear newydd sydd "eu hangen" i gymryd lle gorsaf Cherbobyl. Ni fydd y dyfodol yn maddau i ni os caniatawn i hyn ddigwydd.
Yn y gwledydd yr amheuir eu bod wedi eu llygru'n barhaol i ryw radd neu'i gilydd gan y ddamwain, mae un plentyn o bob tri mewn rhai rhannau o Belarws, Wcraen a Gorllewin Rwsia yn sâl ac mae cyfraddau cancr yn cynyddu. Byddem yn rhyfygus iawn pe baem yn anwybyddu rhybudd Chernobyl, Mae 230,000 o ddefaid ar bron 400 o ffermydd ym Mhrydain yn dal yn gaeth i gyfyngiadau am 10 i 15 mlynedd arall.

Y gwir amdani yw ein bod wedi profi ychydig o'r effeithiau, ond chawn ni byth wybod gwir ddimensiynau biolegol, ecolegol, seicolegol ac economaidd bom ymbelydrol Chernobyl.

### heddweithredu!

Pan aeth gweithredwyr CND Cymru â chymorth o Gymru i rannau llygredig dros ben Belarws ym 1995, roedd mamau plant sâl iawn yn erfyn arnom i gyfleu'r neges pan fyddem nôl yng Nghymru fod yn rhaid i ni weithio i sicrhau na fydd byth raid i deuluoedd eraill ddioddef o'r un cyflwr, ac i "atal pob gorsaf niwclear a system arfau". Mae Project Plant Chernobyl yn gweithio gyda phobloedd y gwledydd yr effeithiwyd fwyaf arnynt, gan helpu gyda phrojectau iechyd, cymdeithasol ac adferol. I gysylltu â nhw yng Nghymru:

Aberystwyth (01970) 832382 ;
Caerfyrddin (01267) 222819;
Caerdydd (029 20) 864793;
Llandinam a'r Drenewydd (01686) 688181

## Apêl Ddeublyg o Menwith:

### Am arian:

Mae Ymgyrch Heddwch Menywod Menwith Hill yn Swydd Efrog yn apelio am gyfraniadau tuag at brynu cerbyd i'w ddefnyddio ar eu protestiadau gweledig ac fel 'Ffocws amgen i'r cyfryngau" yng nghanolfan ysbïwyr yr UD yn Menwith Hill. Maent yn gobeithio y bydd cefnogwyr yn gallu danfon cyfraniad neu lenwi gorchymyn banc i helpu gyda chostau rhedeg. Mwy o wybodaeth gan Helen John ar (01943) 468 593, a chyfraniadau iddi i: Blwch SP 105, Harrogate, North Yorkshire, HG3 2FE.
(Sieciau'n daladwy i *Womenwith Hill Women's Peace Camp*)


### Am Weithredu

Mae Gwersyll Heddwch Womenwith Hill yn apelio ar i bob grwp i fynd i'r gwersyll UD agosaf ar drydydd penwythnos pob mis. Y gobaith yw y bydd hyn yn atgyfnerthu'r brotest yn erbyn y posibilrwydd o ras arfau farwol yn y gofod, a mynd yn ymgyrch amlwg ledled y DU yn erbyn uchelgais yr UD i reoli trafodion ariannol rhyngwladol, masnach, cyfathrebu a phenderfyniadau gwleidyddol y byd yn y pen draw. Wedi cau Breudeth a Chaerwent, does dim gwersylloedd gan yr UD yng Nghymru, a'r rhai agosaf i Gymru yw: Fairford (Swydd Gaerloyw); Upper Heyford (Swydd Rydychen) Menwith Hill (Gogledd Swydd Efrog); Burtonwood (Swydd Gaer); Brize Norton (Swydd Rydychen). Cysyllter â (01943) 468 593 neu CND Cymru.

Fel y dywed Helen John: *"Mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom"*.

Cynlluniau "star wars" yr UD

# Mr. Blair: Byddwch yn ddigon dewr i ddweud "na"



**Mae'r Cadfridog Howell M. Estes III yn ddyn sy'n siarad heb flewyn ar ei dafod. Yn bennaeth Awdurdod Gofod yr Unol Daleithau, cred mae swyddogaeth yr Awdurdod yw tra-arglwyddiaethu ar *"ddimenswm y gofod mewn gweithgareddau milwrol, i ddiogelu buddiannau a buddsoddiant yr UD"* tra'n *"integreiddio Lluoedd y Gofod yn allu i ymladd rhyfeloedd ar draws holl sbectrwm gwrthdaro"*. Dyw hynny ddim yn anodd ei ddeall. Yn gwbl ddifater ynglyn â'i hoblygiadau o dan Siarter y Cenhedloedd Unedig, mae'r Unol Daleithau yn bwriadu tra-arglwyddiaethu ar y byd yn economaidd ac yn filwrol, ac mae ganddi bellach Arlywydd, George Bush, sy'n credu fod hynny'n bosibl.**

Dyna pam mae'r cynigion i wneud Fylingdales yn Swydd Efrog yn orsaf radar allweddol i Star Wars II yn gyfle hollbwysig i'r llywodraeth Brydeinig. Gallai gytuno â golwg George Bush ar y byd. Yn wir, mae'r Gweinidog Amddiffyn Geoff Hoon fel pe bai'n awgrymu mai dyna'n union y gallai'r llywodraeth fod yn bwriadu ei wneud. *"Mae'n bosib iawn y byddem yn ei ystyried"* oedd ei ateb i gwestiwn yn Nhy'r Cyffredin am ran Fylingdales yn rhaglen can biliwn doler 'Star Wars II' yr UD.

Ar y llaw arall, fe allai Tony Blair wrando ar gyngor dewr Peter Hain ac eraill a dweud "Na, dim diolch" wrth yr Americaniaid. Byddai hynny'n gam tuag at fyd oedd o ddifri ynglyn â dileu arfau niwclear ac yn anelu am y nod o ddiogelwch i bawb. Ym 1982, dywedodd adroddiad Olof Palme, Common Security : *"Rhaid i wledydd gydnabod yn yr oes niwclear na all cenhedloedd sicrhau diogelwch ar draul ei gilydd. Dim ond drwy ymdrechion cydweithredol a pholisiau cydgloadol o ymatal cenedlaethol fydd holl ddinasyddion y byd yn gallu byw heb ofn rhyfel ac anrhaith..."*.

Mae breuddwyd Star Wars II Bush/Pentagon yn ein harwain ar siwrnai ofer drychinebus. Cam arall ydyw yn y broses o ailgychwyn ras arfau beryglus a drud. Ffolineb rhonc yw ceisio ei gyfiawnhau ar sail y gallai rhai 'gwladwriaethau peryglus" bychain fod mor ddihid am eu diogelwch eu hunain ag i ddechrau hyrddio arfau niwclear at "uwch-bwer" olaf y byd.

Y gwir amdani, fel y gwêl Rwsia a Tsieina, yw mai ymgais yw Star Wars i ddirymu arfogaethau'r ddwy wlad hynny. Unig ganlyniad gweithredu Star Wars fyddai peri iddyn nhw, a gwledydd eraill o bosib, i geisio cynyddu ei gallu i daro nôl ag arfau niwclear, ac ar y pryd, ddod o hyd i ffordd o osgoi gwrth-fesurau Star Wars. Os na allant wneud hynny, fe ddônt o hyd i ffyrdd eraill i ledaenu defnydd braw ymhellach.

Byddai rhoi caniatâd i'r UD i ddefnyddio Fylingdales yn dweud "ie" i fyd heb obaith o fedru datrys problem rhyfel. Byddai dweud "na " yn gam dewr, ond byddai'n galondid i filiynau sy'n gwrthod gweledigaeth Bush o bwer America ac yn cynllunio mewn gwahanol ffyrdd ar gyfer byd llai milwriaethus, gyda sefydliadau a all wireddu'r freuddwyd o ddiogelwch i bawb.

Drwy roi blaenoriaeth, fel mae'r llywodraeth hon wedi ei wneud, i gymeradwyo'r Cytundeb Llys Troseddol Rhygnwladol yn fuan, mae wedi dangos llawr mwy o annibyniaeth ar lywodraeth yr UD nag a wnaeth criw Thatcher erioed. Er bod y Ceidwadwyr bellach yn uchel eu cloch am amddiffyn sofraniaeth Prydain yn wyneb Ewrop, roeddynt bob amser yn fodlon aberthu sofraniaeth Prydain i bwer y Pentagon.

Ym mis Tachwedd 2000, cafodd hyd yn oed Yr Unol Daleithau ei gwthio yng Nghynulliad Cyffredinol y CU i gytuno "y bydd byd heb arfau niwclear yn y pen draw yn gorfod bod ar sail offeryn byd-eang a negydwyd gan bob ochr, ac sydd â grym y gyfraith ..." mewn geiriau eraill, cytundeb i ddileu arfau niwclear. Mae hyn yn golygu bwrw ati gyda negydu amlochrog, proses, er gwaethaf y blynyddoedd o siarad gwag, nad yw hyd yn oed wedi dechrau eto. Byddai'n gofyn dewrder, ond wrth wrthod y cais am ddefnyddio Fylingdales, gallai Blair gynnig cynnal cynhadledd ar ddileu arfau niwclear y gellid gwahodd yr holl bwerau niwclear presennol iddi, yn cynnwys Pakistan, Israel ac India. Am gost o fwy na biliwn o bunnau y flwyddyn, mae Trident yn symbol statws ofer a drud. Er mwyn i'r byd fedru cefnu ar syniadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg am ddiogelwch cenedlaethol, rhaid i rywun fod yn ddewr ac yn arloesol. Pam nad Prydain?

**Bruce Kent**


# Dyfodol ffantasïol - mae'r stori'n datblygu...

Mae Rwsia wedi dweud y bydd yn rhoi'r gorau i gwtogi milwrol ac yn terfynu pob cytundeb rheoli arfau os aiff system NMD yr UD yn ei blaen. Mae Rwsia a Tsieina yn negydu eu cyd-gytundeb cyntaf er diwedd y Rhyfel Oer. Ym mis Chwefror, dwedodd Rwsia wrth NATO ei bod am i Ewrop greu ei tharian amddiffyn rhag taflegrau ei hun. Dwedodd Ysgrifennydd Cyffredinol NATO, George Robertson, a oedd ym Mosgo i siarad gyda'r Arlywydd Vladimir Putin, ei fod yn croesawu cynigion Rwsia i ymdrin â "yr un math o fygythiad canfyddedig". Mae Tsieina wedi ymosod ar gynlluniau'r UD fel bygythiad i heddwch y byd, gan ddweud y gallent lwyr danseilio'r cydbwysedd strategol byd-eang.

Mae'r Ysgrifennydd Tramor Robin Cook wedi mynegi pryderon am ran Prydain yn system Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol yr UD, gan ddweud y byddai'n gwrthdaro â'r Llu Ymateb Buan Ewropeaidd, ac y gallai fod yn fwrn ar gyllideb amddiffyn Prydain (Independent, Times a'r Daily Telegraph 19.02.01). Ac eto, ychydig cyn i Cook ymweld â Washington D.C. adroddodd y Financial Times (08.02.01) ei fod yn teimlo y gallai cynlluniau'r UD am Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol gynhyrchu "budd net" o ran diogelwch rhyngwladol.

*heddweithredu!* Wrth i Heddwch fynd i'r wasg, mae'r Arlywydd Bush yn dal heb ofyn yn agored i Blair os caiff ddefnyddio Fylingdales ar gyfer Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol yr UD, a hysbyswyd gweision sifil i osgoi trafod y mater drwy nodi mai dyna'r sefyllfa yn eu hatebion i'n llythyron ar y pwnc.

Sgrifennwch at Robin Cook yn y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, Whitehall, Llundain SW1 2AH, mynegwch eich pryder ynglyn â NMD a gofynnwch iddo pa rai o'r pryderon hynny sy'n cyffwrdd â'i wir deimladau ar y mater. Byddai unrhyw lythyron at y Prif Weinidog neu eich AS, ASE neu AC ynglyn ag NMD yn dangos fod y mater affwysol bwyisig hwn yn fyw iawn ym meddyliau etholwyr. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag CND Cymru (gweler Cysylltiadau) neu CND Prydeinig (020) 7700 2393. Neu ymwelwch â gwefan ddefnyddiol CND Swydd Efrog: http://www.gn.apc.org/cndyorks/



Berthynas Arbennig

## Geiriau i CND Cymru

Ffrwydrwch eich bomiau a'n dinasoedd glân
Fu'n gartref i grefydd a llên a chan,
Maluriwch ei muriau yn anial llwyd,
Ei gerddi ffrwythlon yn rhwbel di-nwyd.
Nid yn fy enw i ...

Gwariwch eich trethi yn hael a rhydd
Yn barod i ddisgwyl rhyw ryfel a fydd,
Gorfodwch y trethi ar ddynion tlawd
Sy'n ei chael yn anodd i ddilyn eu rhawd.
Nid yn fy enw i ...

Miloedd ar filoedd o bobol ein byd

Sydd heb fwyd na chysur nac aelwyd glyd,
"Peidiwch â gwrando ar eu cri
Ennill y rhyfel yw ein pwrpas ni.
" Nid yn fy enw i ...

Ni ellir cael rhyfel heb golli gwaed,
A damsgen gwerinwyr gwirion dan draed
Sy'n ceisio, yng nghanol eu penyd tlawd,
Am gymorth a chysur eu chwaer a'u brawd.
Nid yn fy enw i ...

Molwch arweinwyr sy'n trefnu'r drin
Gydag uchelgais a bri di-flin,
Eu propaganda cyfrwys, di-ball,
Fod pawb ond y nhw yn bobol ddall.
Nid yn fy enw i ...

Gobaith a ffydd a chariad pur
Yw'r unig ffordd i wella eu cur,
Er eu gwawdio a'u herlid o ddydd i ddydd,
Hyn yn y diwedd â ennill y dydd.
Nid yn fy enw i ...

Hyn yn wir yw fy nghyffes i:
A wnei di gyfaill ymuno â mi
Mewn ymgais ddewr i arwain y byd
I heddwch a thegwch i bawb ynghyd?
Nid yn fy enw i ...

Gwnewch fel hyn os mynnwch chi
Ond peidiwch â'i wneud yn fy enw i
Nid yn fy enw i ...

***D.R. Thomas***

Bu D.R Thomas a'i wraig Jan yn weithgar mewn mudiadau heddwch a chyfiawnder yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Er mawr dristwch, bu Jan farw ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, ac mae CND Cymru yn danfon cydymdeimlad dwys a chariad annwyl at D.R..

# Ymgyrchu - y diweddaraf

## Eugene Carroll

Ymwelodd yr Ôl-Lynghesydd Eugene Carroll, USN (wedi ymddeol), Is-Lywydd y Ganolfan Wybodaeth Amddiffyn yn Washington, â Lloegr ym mis Chwefror ar wahoddiad CND i helpu i wneud pobl yn fwy ymwybodol o beryglon System Amddiffyn Taflegrau Genedlaethol (NMD) arfaethedig yr UD. Nododd Eugene Carroll mai NMD yw *"yr un mater brys sy'n sefyll allan fel sail i brawf arwyddocaol o bwysigrwydd mawr i ddiogelwch a lles dinasyddion Prydain ..."* Dywedodd *"mai dyma'r amser iawn i fanteisio ar berthynas arbennig Prydain ac America i ddweud wrth Arlywydd UD newydd sydd â chrap ansicr ar faterion diogelwch fod yr UD fel pe bai wedi meddwi ar ei swyddogaeth fel yr unig uwch-bwer. Dywedodd ymhellach y dylid rhybuddio Mr Bush ei bod yn bryd ailasesu yn sobor gynlluniau milwrol hanfodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch a lles Prydain."*

## Jubilee Ploughshares

Yn oriau mân y bore ar Dachwedd 3ydd, aeth y Tad Martin Newell o Lundain a Susan van der Hijden o Gymuned Gweithwyr Babyddol Amsterdam i mewn i Ganolfan Awyrennau RAF Wittering yn Swydd Gaergrawnt â'r bwriad o ddiarfogi'n symbolaidd y "confoi cerbydau arbennig" sy'n cludo ergydion niwclear rhwng Burghfield (Berkshire) a'r safle arfau niwclear Trident yn Coulport.



"Dyma Sian. Dyma Sian yn protestio.
Sian! Protestia!"

Analluogodd Martin a Susan gludydd ergydion Trident, gan forthwylio'r dangosfwrdd ac offer arall yn y cab, a pheintio'r geiriau *"The Kingdom of God is among you"*, *"Drop the Debt, Not the Bombs"* a *"Love is the Fulfilment of the Law"* cyn mynd i chwilio am swyddogion diogelwch i'w hysbysu am eu gweithred.

Dywedodd Susan van der Hijden, sy'n byw a gweithio gyda ffoaduriaid yn yr Iseldiroedd: *"Rwyf wedi byw gyda dioddefwyr trais rhyngwladol ers saith mlynedd. Mae'n hen bryd mynd at wraidd y broblem - y cyfoethogion yn ecsploeti'r tlodion - ac mae Trident yn chwarae rhan fawr yn hynny."*


heddweithredu!

Mae Susan a Martin wedi bod yn y carchar yn disgwyl achos llys ers mis Tachwedd.

Mae Grwp Cefnogi Jubilee Ploughshares yn cynnig siarad mewn cyfarfodydd grwpiau a gellir cysylltu â nhw am wybodaeth bellach, neu i gyfrannu arian: (07947) 569577
c/o 38, Twinflower, Walnut Tree, Milton Keynes MK7 7LH. Sieciau'n daladwy i Jubilee Ploughshares.

Sgrifennwch at Susan a Martin; dwedwch wrthyn nhw amdanoch eich hun a beth rydych yn ei wneud.

Susan van der Hijden, EN 5880, HMP Holloway, Parkhurst Road, Llundain N7. Y Tad Martin Newell, EM6780, HMP Bedford, St.Loyes Street, Bedford MK40 1HG



Torrwr bolltiau newydd Roger

Mae Roger Franklin o Horsley, Swydd Gaerloyw, wedi dod o hyd i ffordd wreiddiol o gadw allan o'r carchar. Mae Roger yn weithredydd heddwch adnabyddus sydd wedi cael ei garcharu sawl gwaith am weithredu uniongyrchol. Mae arno £721 mewn dirwyon ac mae wedi llunio dull a allai ei gadw allan o'r ddalfa tra'n ennill cyhoeddusrwydd i Trident Ploughshares. Mae'n gofyn i gefnogwyr nad ydynt yn gallu gweithredu'n uniongyrchol eu hunain i dalu ei ddirwyon, ac fe fydd yntau'n talu symiau cyfwerth i Trident Ploughshares.

heddweithredu!

Mae Roger yn gofyn i gefnogwyr ddanfon sieciau am £15 yn union yn daladwy i Glerc yr Ynadon, ynghyd â llythyr gwrth-Niwclear (cwrtais) ato yn ei gartref: Tickmorend House, (Nuclear Free Zone), Horsley, Stroud, Gloucestershire GL6 0PE. Bob wythnos bydd yn danfon un o'r sieciau hyn, ynghyd â'r neges, at y Llys. Os na all cefnogwyr fforddio £15, mae'n fodlon danfon bwndeli o sieciau £3 neu £5 gan wahanol bobl. Yn ôl Roger, gan fod £15 yn ddigon i brynu pâr da o dorwyr bolltiau, bydd y cyfraniadau i Trident Ploughshares yn ddefnyddiol iawn.

## Ddim yn Euog o Gynllwynio

**Trydedd dedfryd ddieuog yn Llys y Goron i Trident Ploughshares**

Ar yr 28ain Ionawr 2001, cafodd rheithgor o chwe dyn a chwe menyw yn Llys y Goron Manceinion ddau ymgyrchydd Trident Ploughshares o Grynwyr yn ddieuog o gynllwyno i gyflawni niwed troseddol. Daeth y ddedfryd wedi i'r rheithgor glywed sut aeth Sylvia Boyes a River i mewn i'r dociau yn Barrow fis Tachwedd diwethaf, â'r bwriad o ddiarfogi'r bedwaredd long danfor niwclear Trident. Mae hyn yn dangos, pan ddwedir y ffeithiau am arfau niwclear a pholisi 'amddiffyn' Prydain wrth bobl gyffredin, eu bod yn fodlon dilyn eu cydwybod ar yr hawl i weithredu'n uniongyrchol mewn modd heddychlon pan fydd y llywodraeth yn gwrthod gweithredu. Dyfynnodd Sylvia eiriau Kathleen Lonsdale, gwyddonydd a heddychwraig o Grynwraig: *"Y gwir arswyd yw nid y ffaith y gallem ni gael ein bomio, ond y ffaith y gallem ystyried gollwng bom ar rywun arall."*

## Safleoedd Wraniwm Hesb yng Nghymru?

Mae CND Cymru wedi sgrifennu at Geoff Hoon, Y Gweinidog Gwladol dros Amddiffyn, a Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros yr Amgylchedd, yn gofyn am wybodaeth parthed lleoliad unrhyw safleoedd yng Nghymru wedi eu llygru gan wraniwm hesb (WH). Rydym yn dal i ddisgwyl atebion i'r cwestiynau p'run ai a fu, neu a oes unrhyw gynlluniau

i brofi neu ddefnyddio WH mewn unrhyw sefydliad milwrol neu ddiwydiannol yng Nghymru, neu oes arfau WH yn cael eu cynhyrchu unrhywle yng Nghymru.

Gwyddom fod wraniwm hesb wedi cael ei ddefnyddio yn y Sefydliad Arfau Atomig yn Llanisien yng Nghaerdydd i gynhyrchu casys ergydion niwclear taflegrau Trident. Credir hefyd fod ffrwydron CHARM, sy'n cynnwys wraniwm hesb, yn mynd i gael eu cynhyrchu yn ffatri British Aerospace yng Nglascoed ger tref Brynbuga. Mae'n bosib fod ffrwydron â chasys WH wedi cael eu cydosod yn RAF Sealand hefyd. Does neb yn gwybod a ddefnyddiwyd wraniwm hesb mewn ymarferion milwrol a/neu brofion ar feysydd saethu Pentywyn, Castellmartin, Aberporth neu Bontsenni (Mynydd Epynt).

Wraniwm hesb yw un o'r pedwar prif lygrydd yn SAA Llanisien, Caerdydd, safle yn un o faestrefi Caerdydd sydd ar hyn o bryd yn cael ei dadgomisynu. Cyfaddefwyd fod 174 tunnell fetrig o wastraff "lefel-isel" o'r safle hwn wedi cael ei gludo ar hyd ffyrdd cyhoeddus i safleoedd claddu sbwriel trwyddedig. Faint o fygythiad yw hynny i drigolion lleol, i bobl sy'n byw yn y cyfeiriad mae'r gwynt yn chwythu ac i weithwyr y gwasanaethau brys pe bai tân ar safle claddu sbwriel neu wrth i'r deunydd gael ei gludo?

Gofynnwyd cwestiynau gan Janet Ryder AC a Helen Mary Jones AC yn y Cynulliad Cenedlaethol ac mae Jocelyn Davies AC a Jill Evans ASE wedi codi'r mater hefyd. Ni chafwyd atebion hyd yma, dim ond ailgychwyn profi arfau WH, gyda chryn gyhoeddusrwydd, gan y Werinyddiaeth Amddiffyn yn Eskmeals yn Lloegr a Solway Firth yn yr Scotland.

Mae CND Cymru yn poeni, beth bynnag fo'r gwirionedd am beryglon yr arfau hyn, y dylid glynu wrth yr egwyddor ragochel "Cymru Gynaliadwy" a ymgorfforwyd gyda sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, ac na ddylid eu cynhyrchu, eu profi na'u defnyddio.

*heddweithredu!*

Os ydych yn byw yng nghyffiniau un o'r llefydd a enwyd uchod, neu yn wir, yng nghyffiniau safle gladdu gwastraff leol, da chi, sgrifennwch ar eich AS, ACau a/neu Adran Iechyd yr Amgylchedd leol yn gofyn am wybodaeth. Danfonwch unrhyw atebion ar CND Cymru, os gwelwch yn dda.

**gorsafoedd ynni niwclear**

# Oldbury ac Wylfa

## Fuom ni erioed mewn mwy o berygl

Mae penderfyniad BNFL ar Ionawr 25ain i roi'r gorau i ddatblygu tanwydd MAGROX yn codi cwestiynau difrifol am ddyfodol gorsafoedd ynni niwclear Wylfa ac Oldbury. Ym mis Mai 2000 dywedwyd fod y cynllun i ymestyn oes y gorsafoedd hyn i 2013 (Oldbury) a 2016/2021 (Wylfa) yn ddibynnol ar ddefnyddio tanwydd MAGROX, y gellid ei ailbrosesu drwy waith THORP Sellafield.

Er bod BNFL yn eiddgar iawn i redeg Wylfa ac Oldbury cyhyd â phosib, ni all ddibynnu arnynt am lawer yn hwy. Heb law am y diffygion 'asiadau tra-phoeth' yn Wylfa sydd wedi cadw'r orsaf ar gau am yr un mis ar ddeg diwethaf, mae Wylfa ac Oldbury ill dwy wedi dioddef mwy o gyrydu yn eu creiddiau graffid nag unrhyw orsaf arall yn y system. Cyn ei bod yn 35 mlwydd oed ymhen dwy flynedd, bydd Oldbury wedi colli bron hanner y graffid yn y blociau yr effeithiwyd waethaf arnynt. Ystyrir nad yw Wylfa fawr gwell. Ceir y rhagolygon hyn mewn dogfennau cyfrinachol y diwydiant niwclear sy'n adolygu cyflwr posibl creiddiau'r adweithyddion Magnox ar 'ddiwedd eu bywyd'. Rhagwelir 'methiant' rhai rhannau o'r creiddiau graffid cyn 2006 yn achos Wylfa, a 2003 yn Oldbury. Mae'r Arolygaeth Sefydliadau Niwclear hyd yn hyn (26/2/01) wedi gwrthod cadarnhau fod ganddynt gopïau o'r dogfennau.

Amlinellwyd oblygiadau methiant o'r fath yn Oldbury gan Hugh Richards, CWNC mewn cyfarfod cyhoeddus yng Nghas-gwent a fynychwyd gan nifer dda o bobl ar Chwefror 23ain. Mynegodd Jill Evans ASE a Mike German AC, arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru ill dau eu pryder. Mae Huw Edwards, AS Llafur Trefynwy, yn mynd i ddod â'r pryderon a fynegwyd yng Nghas-gwent i sylw Peter Hain AS, y Gweinidog sy'n gyfrifol am ddiogelwch niwclear.

Pe bai pibell yn byrstio mewn adweithydd yn naill ai Oldbury neu Wylfa, byddai'n chwistrellu ager yn syth i mewn i'r craidd ar fwy na dwywaith gwasgedd yr oerydd carbon diocsid. Gallai ysgytwad i unrhyw un o'r creiddiau adweithydd yn hawdd iawn symud y blociau graffig mwyaf ansad o fwy na'r 50mm sydd ei angen i atal y rhodenni rheoli rhag mynd i mewn i'r sianel i gau'r adweithydd i lawr. Byddai blociau graffid a oedd wedi symud o'u lle hefyd yn peri i'r sianeli rhwystredig boethi, a gallai hynny niweidio'r elfennau tanwydd gan arwain at y posibilrwydd o dân ac ymdoddiad.

Yn y cyfamser, yn Wylfa, mae BNFL wedi penderfynu defnyddio atgyfnerthiad allanol i atal pibellau'r tra-phoethydd rhag 'neidio allan' o'r adweithyddion (Nucleonics Week - Chwefror 8, 2001 tud. 13). Mae hon yn ffordd warthus 'gymorth-gyntaf' o ddatrys problem na fydd yn cadw'r asiadau rhag byrstio, ac mae'n awgrymu nad yw BNFL yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri.

**Hugh Richards**

*heddweithredu!*

Daliwch ati i sgrifennu at eich AC a'ch AS yn mynegi eich pryder ac yn galw am gau'r gorsafoedd ynni niwclear peryglus hyn unwaith ac am byth.



*"Machgen i, 24,400 blynedd o nawr ti fydd yn berchen hyn i gyd."*

Irac

# Odyssey drist 2001

Eleni yw'r unfed flynedd ar ddeg o sancsiynau yn erbyn Irac. Doedd hyn ddim yn rhywbeth a ragwelodd Arthur C. Clark yn ei ffilm am 2001, sef y byddai Prydain ac UDA yn arwain ymgyrch o Hil-laddiad[1] yn erbyn poblogaeth sifil Irac. Mae plant Irac, heb ddwr glân na digon o fwyd, wedi mawr yn eu cannoedd o filoedd. Does neb yn gwybod faint yn iawn, ond dywedai amcangyfrif ceidwadol gan UNICEF ym 1999[2] fod 500,000 o blant dan bump wedi marw yn yr wyth mlyned cyntaf, ac mae 5,000 i 6,000 ar gyfartaledd wedi marw bob mis ers hynny. Rai miosedd, mae'r ffigwr hwnnw wedi cyrraedd 12,000.

Ym mis Rhagfyr 1998, pan nad oedd lladdfa'r diniweidiaid yn cyflawni'r hyn mae Prydain ac UDA yn ei ddymuno, dyma nhw'n lansio Desert Fox, pedwar diwrnod o fomio dwys, sydd wedi parhau born yn ddyddiol ers hynny, gan gostio £4m y mis i drethdalwyr Prydain. [3] Hyd yn hyn, mae 317 o sifiliaid wedi cael eu lladd a 936 wedi eu clwyfo yn ystod dwy flynedd o fomio.[4] Pan gyfarfu Joanne Baker a minnau Hans von Sponeck yn Baghdad ym 1999, rhoddodd arolwg i ni o'r sefyllfa fomio bresennol, sy'n dangos fod 41% o'r cyrchoedd awyr wedi peri anafiadau i sifiliaid.[5] Penderfynodd Blair ddathlu dengmlwyddiant Rhyfel y Gwlff nid drwy gynnau cannwyll i goffáu meirwon y rhyfel hwnnw, ond drwy roi cyrion Baghdad ar dân. Yn y bomio cwbl anghyfreithlon hyn (does dim mandad CU, dim côd moesol, dim daliadau crefyddol, dim rheol draddodiadol o dan y gyfraith ryngwladol a allai gyfreithloni'r fath bolisi neu ei wneud yn foesol[6]), roedd y Prif Weinidog yn rhoi gwybod i ni beth i'w ddisgwyl os byddwn mor anffodus ag i weld ailethol y llywodraeth hon, gan ganiatáu iddi barhau â'i pholisi tramor anethegol.




Wrth i mi sgrifennu hyn o eiriau, mae Blair yn ymweld â Bush yn y Ty Gwyn, yn trafod Irac a system amddiffyn taflegrau yr UD. Yn ystod arlywyddiaeth Gerald Ford ym 1976, pasiwyd gorchymyn gweithredol i atal yr arlywydd rhan asasineiddio arweinwyr gwledydd eraill drwy'r CIA. Mae llywodraeth Bush wrthi'n ceisio dileu'r cyfyngiad hwnnw bellach. [7] Ai dyna pam mae Tony mor eiddgar i seboni Bush?

***Dave Rolstone***

### Nodiadau

1.Humanitarian consequences of sanctions: UN Sub-Commission resolution 2000/1 E/ CN.4/Sub.2/2000/L.11 (14 Awst 2000) Paragraff 71.
2. UNICEF 1999 Iraq Child and Maternal Mortality Surveys. www.unicef.org/reseval/ iraq.htm
3. Cynnig Boreol 252 y Senedd Brydeinig.
4. Gulf News, Dubai.
5. Cyrchoedd awyr yn Irac 28 Rhagfyr 1998 i Fai 1999. Paratowyd gan adran ddiogelwch-UNOHCI- Baghdad.
6.Brian Wilson (Gweinidog Gwladol newydd â chyfrifoldeb arbennig am Irac yn y Swyddfa Dramor). Wrth geisio cyfiawnhau y cyrchoedd awyr diweddar, dywedodd: "Mae'n cael ei wneud fel polisi o amddiffyn dyngarol er osgoi trychineb ddyngarol uwch law neu is law y cylchfeydd dim-hedfan. Mae'n cael ei wneud o dan Benderfyniad 688 Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig sydd yn awdurdodi'r gweithredu dyngarol hwnnw." Yn wyth paragraff UNSCR 688 does dim byd i awdurdodi sefydlu cylchfeydd dim-hedfan unrhywle dros Irac. Dydy'r penderfyniad ddim yn awdurdodi defnyddio grym i ddibenion dyngarol yn Irac chwaith. Ac yn sicr, dydy e ddim yn awdurdodi defnydd grym gan awyrennau'r UD neu Brydain i ymosod o flaen llaw i sicrhau eu diogelwch eu hunain yn ystod patrolau 'dyngarol' bondigrybwyll.
7. Cyn. Bob Barr (R-Ga.) Mesur arfaethedig - Penderfyniad y Ty 19 - a fyddai'n caniatáu i arlywyddion Americanaidd i asasineiddio arweinwyr tramor.

## Gwrandawiad Diarfogi Pobl Cymru

Ar 31 Mawrth 2001, ar ddechrau Degawd Diwylliant Heddwch y CU, bydd grwpiau ymgyrchu yn dod at ei gilydd i lunio agenda o weithredu cydgysylltiedig ar gyfer diarfogi yng Nghymru. Mae'r Grwandawiad ar agor i unigolion a grwpiau, boed heddwch a diarfogi'n brif ffocws iddynt, neu weithredu egangach.

Cynhelir y Gwrandawiad mewn canolfannau yn Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd, drwy gyswllt fideo, a fydd yn caniatáu i ymgyrchwyr o bob rhan o'r wlad i gymryd rhan mewn cyd-Wrandawiad, gan bontio'r pellter daearyddol sy'n ein gwahanu.

Mae'r Gwrandawiad yn bwriadu bwrw ymlaen ar sail yr argymhellion eang eu cwmpas a ddeilliodd o Sesiwn Arbennig y Bobl ar Ddiarfogi yn Birmingham llynedd, gyda thair prif thema:

1. Cynhadledd Mân Arfau y CU ym Mehefin 2001;

2.Arolwg Deng-mlynedd o 'An Agenda for Peace. Preventive Diplomacy, Peacemaking and Peacekeeping' gan Boutros Boutros-Ghali;

3.Galw am Bedwaredd Sesiwn Arbennig y CU ar Ddiarfogi.

Dim ond hyn a hyn o lefydd fydd ar gael, felly cofrestrwch cyn gynted ag y gallwch (£3.50 neu £2.50 incwm isel). CCU Cymru, Canolfan Gymuned y Groes, Pontardawe SA8 4HU 01792 869 267 helen.unawales@ecommonwealth.net

# llyfrau

## Gweithredu'n uniongyrchol dros heddwch yn eich llyfrgell leol

Mae hwn yn syniad syml y gall unrhywun sy'n defnyddio llyfrgell gyhoeddus, coleg neu brifysgol ei ddefnyddio. Ewch i'r llyfrgell gyhoeddus â rhestr fechan o lyfrau am heddwch, materion gwrth-niwclear neu ddiarfogi. Os nad yw'r llyfr ar gael ar y silffoedd, gofynnwch i'r llyfrgell gael gafael ar gopi i chi (drwy fenthyciad rhyng-llyfrgelloedd neu drwy brynu'r llyfr ar gyfer y llyfrgell). Mae fy llyfrgell leol yn fodlon prynu'r llyfr os yw'n llai nag £20, ac mae'n codi £1.10 arnaf am y gwasanaeth.
Yn ddiweddar, archebais 'Bloody Hell' gan Dan Hallock (Plough Publishing House 1999 ISBN : 0-87486-969-2 £5.50). Mae'r gyfrol hon, sydd â rhagair hynod gan y cyn-filwr o Gymro, Simon Weston, yn cofnodi tystiolaeth bersonol milwyr Prydeinig ac Americanaidd, gan ddatgelu drwy hynny y niwed meddyliol ac ysbrydol aruthrol a ddioddefir gan y rheini sy'n ymuno â'r lluoedd arfog. Prynodd fy llyfrgell gyfrol ardderchog Noam Chomsky, 'The New Humanitarianism - The Balkan War' ar fy nghyfer hefyd.

Am £4 neu £5 mae'n bosib archebu 4 neu 5 llyfr gwerth £25 - £50, a nid yn unig elwa arnyn nhw'n bersonol ond sicrhau y gall eraill gael eu goleuo yn yr un modd! Gwn am un fenyw a greodd adran "Heddwch a Diarfogi" gyflawn yn ei llyfrgell leol, gan fwynhau'r llyfrau ei hunan a chreu adnoddau ar gyfer eraill yn y broses.

***Malcolm Sutcliffe***

---

## *Peace is Possible* Frederik S. Heffermehl (gol.) International Peace Bureau

Mae'r gyfrol hon o draethodau, "Peace is Possible", yn seiliedig ar brofiadau unigolion sydd wedi bod yn gweithio tuag at ddileu rhyfel, neu sy'n dal i wneud. Mae'r tri-deg-tri o gyfranwyr, sy'n cynnwys Mikhail Gorbachev, Joseph Rotblat, Scilla Elworthy, Nelson Mandela, Kate Dewes, y Dalai Lama a Jody Williams, yn rhoi hanesion bywiog eu profiadau personol. Mae'r gyfrol yn banorama o ymdrechion, sy'n ysbrydoli gobaith am drefn ddiogel a heddychlon i'r byd.

Yn ogystal â'r bwriad gwreiddiol o gyrraedd "y person yn y stryd" mae canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnwyd yn gefnogaeth gref i ddal i ymdrechu. Mae'r llyfr yn ein hatgoffa o'n nerth, ac mae'n addas iawn at ddefnydd mewn addysg heddwch a grwpiau astudio.

*"Does neb ohonom yn gwybod sut ydym yn effeithio ar berson arall, neu beth allem fod yn ei roi. Mae hynny ynghudd, a felly yr erys. Yn fynych, cawn weld cyfran fach o hyn fel na fyddom yn digalonni. Mae pwer yn gweithio mewn dirgel ffyrdd."*
Albert Schweitzer

Cyhoeddir *Peace is Possible* gan IPB gyda chefnogaeth UNESCO. Mae ar gael gan Bruce Kent, 11, Venetia Road, Llundain N4 1EJ. Mae'r pris o £5 yn cynnwys cludiant (sieciau'n daladwy i Bruce Kent).

## *Planet Earth :The Latest Weapon of War*

### *A Critical Study into the Military and the Environment* Rosalie Bertell Women's Press 2000 £12.99

*"Dyw rhai pobl ddim am glywed hyn, ac yn sicr dyw e ddim yn ffasiynol... ond - yn ddi-os - rydyn ni'n mynd i ymladd yn y gofod"*
(Pencadfridog Awdurdod Unedig y Gofod, 1996)

Cyfrol Rosalie Bertell yw'r cyswllt coll rhwng y mudiadau amgylchedd a heddwch. Tra'n bod ni wrthi'n gofalu dysgu i'n plant i ailgylchu papur, mae'r garfan filwrol, dan arweiniad yr UD, yn ymosod ar gydbwysedd mecanweithiau cynnal-bywyd y Ddaear drwy ymchwil ac arbrofion anwybodus, camddefnyddio adnoddau prin ar raddfa anferthol, a pheri llygredd tymor-hir deifiol - oll yn enw'r hyn mae gweledigaeth Cyd-Bennaeth Staff yr UD am y flwyddyn 2020 yn ei alw'n "full spectrum dominance".

Mae Bertell yn esbonio'n glir i ddysgwyr fel minnau yr hyn sy'n hysbys ar hyn o bryd am atmosffer a magnetosffer y ddaear, a'i swyddogaeth hollbwysig mewn rheoli hinsawdd a thywydd, ac amddiffyn y blaned yn erbyn pelydredd niweidiol a gronynau wedi eu gwefreiddio'n drydanol. Mae'n ysgrifennu â chyfaredd gwyddonydd, ond heb byth anghofio synnwyr cyffredin, gan nodi am un project gofod i'r blaned Iau, "tra bod y wybodaeth a ddanfonwyd yn ôl i'r Ddaear yn ddiddorol, fe gostiodd bron $2 biliwn hefyd".

Mae ei harolwg cyffredinol o'r holl ymchwil gofod pwysig er 1945 yn datgelu parhad yr awydd milwrol am dra-arglwyddiaethu, a rhyfyg syfrdanol o ran arbrofion. Ym 1961, lansiwyd 350 miliwn o nodwyddau copr i mewn i'r ionosffer mewn ymgais i wella cyfathrebu radio, tra defnyddiwyd profion niwclear atmosfferig i darfu ar yr haen fagnetig uchel yn yr atmosffer a adwaenir fel y "Van Allen belts".

Efallai mai rhan fwyaf diddorol y llyfr yw'r bennod ar ymdrechion i reoli'r tywydd i ddibenion milwrol, o Project Skyfire yn Rhyfel Fietnam i'r arbrofion gollwng bariwm a lithiwm i mewn i'r ionosffer yn y 1990Au. Er gwaethaf Confensiwn 1978 y CU yn gwahardd arbrofion o'r fath, mae projectau fel HAARP yn yr UD yn cynhyrchu tonfeddi amledd-isel iawn i 'gynhesu' yr ionosffer â'r bwriad o ddylofi'r tywydd i ddibenion milwrol.

Mae'n anodd asesu effaith y gweithgareddau milwrol hyn, oherwydd pan wneir gwaith ymchwil ar y effaith ar yr amgylchedd, ni ddatgelir canlyniadau hynny. Fodd bynnag, mae niwed sylweddol i'r haen oson, gwaethygu amodau tywydd eithafol, a chynnydd mewn daeargrynfeydd oll yn ganlyniadau posibl sydd eisoes wedi digwydd. Mae Bertell yn nodi hefyd y propaganda sy'n mynd law yn llaw â'r fath brojectau, o'r ymdrechion amlwg i gelu'r ffeithiau fel gyda wraniwn hesb yn y Gwlff, i ymgeision mwy cynnil i fychanu ymchwiliadau yn y maes hwn. Byddwn innau'n ychwanegu at y rhestr honno y modd y canolbwyntir pryder am yr amgylchedd ar faterion sifilaidd yn unig. Hyd oni wna cytundebau a chynadleddau o bwys, fel Uwchgynhadledd y Ddaear, ddwyn i ben yr imiwnedd a roddwyd i weithgareddau milwrol, chawn ni byth wybod gwir gost ymchwil filwrol a rhyfel, na gallu ei herio. Dylai'r gyfrol hon gyffroi ymgyrchwyr dros yr amgylchedd a heddwch i bwysigrwydd yr hyn mae Bertell yn ei alw, â'r synnwyr cyffredin optimistaidd sy'n nodweddiadol ohoni yn 'graddol ddileu'r [grymoedd] milwrol".

***Helen Harris***

## etholiad cyffredinol

# Pleidleiso dros Ddiarfogi

Gofynnodd CND Cymru bedwar cwestiwn ar faterion niwclear ac amddiffyn i bob plaid wleidyddol yng Nghymru. Er na allwn gyhoeddi eu hatebion yn llawn yma, gellir crynhoi'r atebion fel a ganlyn. Os hoffech gopi llawn o'r holl atebion cysylltwch â Jill Stallard (Cysylltiadau t. 14).




## Arolwg CND Cymru

### cwestiynau

### 1. Arfau Niwclear Prydain

Yn wyneb Dyfarniad Llys y Byd ym 1996 a ddwedodd fod arfau niwclear yn anghyfreithlon, beth yw barn eich plaid ynglyn â chael gwared o system arfau niwclear Trident Prydain?

### 2. Ynni Niwclear

Gan ystyried y peryglon sydd yn awr yn amlwg yn rhan gynhenid o ynni niwclear, cyflwr echrydus Gorsafoedd Ynni Niwclaer Oldbury ac Wylfa, a'r ffaith nad oes unrhyw gytundeb ynglyn â sut i ymdrin â storio gwastraff niwclear dros dymor maith, beth yw safbwynt eich plaid ar barhau i ddefnyddio ynni niwclear i gynhyrchu trydan?

### 3. Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol yr UD

Pan, fel sy'n ymddangos yn debyg, fydd Llywodraeth Bush yn gofyn i lywodraeth Prydain ganiatáu defnyddio safleoedd ym Mhrydain fel rhan o raglen Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol yr UD, beth yw polisi eich plaid wleidyddol tuag at y penderfyniad hwnnw, gan ystyried pe bai'r llywodraeth Brydeinig yn cytuno, y byddai'n gwneud Prydain yn fwy tebyg o ddioddef ymosodiad trawiad cyntaf?

### 4. Arfau Wraniwm Hesb

A derbyn fod y llywodraeth Brydeinig wedi mabwysiadu'r Egwyddor Rhagofal ym mis Mai 2000, ac nad yw arfau o'r fath yn cyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at fagu hyder mewn byd mwy diogel i blant ac wyrion pobl, beth yw agwedd eich plaid wleidyddol tuag at gynhyrchu, profi a defnyddio'r fath arfau yng Nghymru neu unrhyw le yn y byd?

## atebion:

| | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Plaid Lafur Cymru | Plaid Cymru | Plaid Werdd Cymru | Cymru Annibynnol | Cymru Goch | Plaid Geidwadol Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfau Niwclaer Prydain** | *... tra bod gan wladwriaethau eraill arfau niwclear, dylai Prydain bara i fod â llu niwclear lleiafsymiol.* | *..byddwn yn sicrhau fod Prydain yn dal i fod â pholisi o frawatal niwclear credadwy.* | *Os oes gan Brydain ymrwymiad gwirioneddol i fyd di-niwclear, dylem fod yn arwain y ffordd drwy ddileu Trident.* | *Galwn am ddileu system arfau niwclear Prydain.* | *...byddwn yn tynnu allan o bob system arfau niwclear a phob cytundeb sy'n ein hymrwymo i'w cadw.* | *Byddem yn dileu pob arf niwclear, yn dechrau gyda Trident.* | *Parhau yn gwbl ymrwymedig i brawataliaeth niwclear annibynnol Prydain.* (polisi) |
| **Ynni Niwclear** | *... Sicrhau fod diwydiant ... yn dwyn holl gostau dadgomisiynu a chael gwared o wastraff. Cael gwared â phob gorsaf ynni niwclear.* | dim ateb | *... nid yw ynni niwclear yn ddewis amgen derbyniol i danwydd ffosil.* | *Rhaid i Wylfa aros ar gau a rhaid dod ag ynni niwclear i ben.* | *..byddwn yn defnyddio dulliau amgen o gynhyrchu ynni adnewyddol yn lle ynni niwclear.* | *Byddem yn cau Wylfa ar unwaith, a gwneud diogelwch yn Wylfa a Thrawsfynydd yn brif flaenoriaeth.* | dim ateb |
| **Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol yr UD (NMD)** | *... poeni'n fawr iawn ac yn credu y dylai Prydain fanteisio ar ei pherthynas glos ag UDA i rybuddio yn erbyn y fath raglen.* | dim ateb | *Dylai unrhyw weithgaredd milwrol fod yn ymweud â chadw'r heddwch a dileu achosion rhyfel ... byddwn yn pwyso ar y llwyodraeth Brydeinig i wrthod unrhyw gais am ddefnyddio safloedd Prydeinig* | *Gwrthwynebwn y cynllun gwallgof hwn â'n holl galon.* | *... dim angen am NMD yr UD - sy'n bodoli i wneud dim ond amddiffyn yr UD* | *Byddem yn ymgyrchu'n weithredol yn erbyn cynlluniau Bush am NMD yr UD.* | *...byddem am greu cefnogaeth i ddatblygu NMD yr UD.* (polisi) |
| **Arfau Wraniwm Hesb** | *Dylai'r WA ymchwilio'n llawn i effeithiau niweidiol tymor-hir posibl defnyddio'r fath arfau.* | dim ateb | *... gofal eithriadol nes y gwyddom beth yw'r peryglon i iechyd a'r amgylchedd.* | *Yn llwyr wyrthynebu cynhyrchu, profi a defnyddio arfau o'r fath ac yn cefnogi'r galw am eu gwahardd ledled y byd.* | *... dim caniatáu cynhyrchu, profi a defnyddio arfau wraniwm hesb unrhywle o fewn ffiniau'r wlad.* | *Byddem yn ymgyrchu yn erbyn unrhyw gysylltiad rhwng Cymru ac wraniwm hesb.* | dim ateb |

# Greenham 1981 - 2001

Aeth bron ugain mlynedd heibio ers i'r orymdaith enwog honno adael Caerdydd ar ei ffordd i Gomin Greenham yn Berkshire i brotestio am gynlluniau NATO i leoli taflegrau cruise niwclear-arfog yr UD yn Ewrop. Mae cynlluniau dathlu ar y gweill, ond hefyd i'n hatgoffa, er bod taflegrau cruise niwclear wedi gadael Ewrop, fod Prydain a gwledydd eraill yn dal i fod yn "gludydd awyrennau ansuddadwy" i'r UD. Mae 150 o arfau niwclear UD yn dal i fod wedi eu lleoli ym Mhrydain, ac mae ras arfau newydd ar y gweill gyda datblygu system Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol yr UD.

Ar hyn o bryd, mae tri achlysur coffa dan sylw: ar Awst 27, gosod plac yn y Deml Heddwch ac un arall yn Eglwys y Gymuned yng Nghasnewydd, lle treuliodd y cerddwyr eu noson gyntaf (cysyllter â Ruth Osborn i gadarnhau 01633 251548). Dangosir, am y tro cyntaf, ffilm Gymraeg a Saesneg a wnaed gan Atomic Mirror i gofnodi dymchwel y ffens yn Greenham yn derfynol llynedd. Mae'r digwyddiadau hyn yn gwbl agored i bawb chwaraeodd ran, neu a gefnogodd unrhyw brotest Greenham, ac fe hoffem rannu syniadau, cynlluniau, adnoddau ac egni gydag unrhyw grwpiau neu unigolion sydd â diddordeb. Cysyllter â Jill Stallard, os gwelwch yn dda (gw. *Cysylltiadau)*.

## Dyddiadau Dyddiadur

**31 Mawrth 10am - 4pm Gwrandawiad Diarfogi Pobl Cymru CCU.** Adeiladu ymgyrch ddiarfogi yng Nghymru. Bydd canolfannau yn Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd wedi eu cysylltu drwy gyswllt fideo. Agored i bob grwp ac unigolyn. Manylion gan helen.unawales@ecommonwealth.net (01792) 869 267

**2 Ebrill Cyfarfod Cenedlaethol Cynefin y Werin** Ty Bethseilun, Stryd y Morfa, Aberystwyth. Cysyllter â: benica@gn.apc.org (01286) 882359

**7 Ebrill Henry Richard** *(1812-1888. Ymgyrchydd Heddwch ac AS Merthyr Tudful)*. **Digwyddiad Coffa.** Y Deml Heddwch, Caerdydd. Manylion gan Richard Jones: 029 20 8549

**14 Ebrill (Sadwrn) 12 pm.** Downing Street, Llundain **Gwrthdystiad 'Dwedwch Na wrth Star Wars'** yn protestio yn erbyn bwriad yr UD o ddefnyddio Prydain yn ei chynlluniau atgas ar gyfer rhyfel yn y gofod. Trefnwyd gan CND Prydeinig (020 7700 2393). Os ydych am rannu cludiant yno, cysyllter ag CND Cymru (gweler cysylltiadau). Cynllunir gwrthdystiadau ar y Sadwrn yn dilyn unrhyw brofion Taflegrau Gwrth-Falistig gan yr UD (020) 7700 2393.

**15 Ebrill Sul y Pasg Gweithred yn Fylingdales.** Tel. Ciaron 07947 569 577 ciaronx@hotmail.com

**3 Mai (Iau) Gweithred yn erbyn y Fasnach Arfau** Llundain. Canolbwyntio ar GCB y gwneuthurwyr arfau British Aerospace Systems. Trefnwyd gan yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau (020 7281 0297). Am weithredu posibl yng Nghymru, cysyllter â Ray Davies (gweler *Cysylltiadau)*.

**4-6 Mai Leeds : Cynhadledd Ryngwladol ar "Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol"** yr UD, trefnwyd gan CND Swydd Efrog (01274) 730 795 cndyorks@gn.apc.org

**12 Mai 11.00am Cyfarfod Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru** (CWNC), Pencadlys Cyngor Sir Caerdydd, Glanfa Iwerydd, Caerdydd. Manylion gan Hugh Richards: (01982) 570362

**15 Mai Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol.**

**10-18 Mai (Gwener - Gwener) 10-15 Mai** ***Y Gwir Gynllwyn*** **Gwersyll Diarfogi a gweithredoedd Trident Ploughshares yn Aldermaston.** I chwarae rhan, ffoniwch 01629 700680 neu Lein Negeseuon TP 01603 469 296. I drefnu cludiant o Gymru ffoniwch Ray Davies neu Sarah Isaacs (gw. cysylltiadau). helen.unawales@ecommonwealth.net

**Awst 4-11 Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. Mae arnom eich angen!! Angen gwirfoddolwyr sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg i helpu ym Mhabell Heddwch - cewch fynediad am ddim i'r Maes. Cysyllter â Rod Stallard o flaen llaw (gweler cysylltiadau).**

### Oes gennych chi ffotograffau, taflenni neu fathodynnau o Greenham?

Rydym yn ceisio creu archif fechan o ffotograffau a deunydd o Greenham - y daith yno, y gwersyll, y protestiadau anferth a rhyfeddol, a hyd yn oed o unrhyw brotestiadau yn y 1960au. Byddai'r deunydd hwn yn cael ei gopïo'n ofalus a'i ddychwelyd i'r perchennog. Gobeithiwn ddyfeisio arddangosfa fechan anffurfiol ar gyfer y digwyddiadau ugain mlwyddiant y bwriedir eu cynnal yn ddiweddarach eleni. Yn y pen draw, byddem yn rhoi copïau i'r archif heddwch yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

A fyddech cystal â danfon unrhyw ddeunydd, gyda'ch enw a'r cyfeiriad wedi eu nodi'n glir ar y cefn, at Jill Stallard (gw. *Cysylltiadau*t. ).

## cysylltiadau cnd cymru

**Golygydd *heddwch* ac Ymholiadau Cyffredinol:**
Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy,
Llanymddyfri SA20 0LR
(01550) 750260 e: heddwch@nantgaredig.freeuk.com

**Cadeirydd:**
**David Morris**
(01792) 206968

**Is-Gadeiryddion:**

**Gogledd Cymru**
Dave Andrews (01978) 310491

**Y Canolbarth**
Olwen Davies (01970) 611994
Rod Stallard (01550) 750260

**De Cymru**
Ray Davies (029 20) 889514

**Mwy o wybodaeth, syniadau,neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND agosaf**

**Aelodaeth**
Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN

**Cysylltiadau:**
Rhoda Jones (01766) 762739

**Masnachu**
Jan Henderson (01792) 830330

**Trysorydd**
Jean Bryant, 16 Ty'n y Cymer Close, Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**Gweithwraig Seneddol:**
Sarah Isaacs, Bridgend Cottage, Llangamarch, Powys LD4 4ED

**Cwynion am awyrennau milwrol yn hedfan yn isel: ffoniwch yr MoD: 020 7 218 6020**

**heddwch** yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).
Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.
Croeso i sylwadau, llythyron ac erthyglau - cysylltwch â'r golygydd, os gwelwch yn dda.

Golygu a chysodi gan Jill Stallard (01550) 750260
(heddwch@nantgaredig.freeuk.com)
Cyfieithu gan Siân Edwards (sian@derwen.demon.co.uk)
Argraffwyd gan Redkite Print (01591) 610844 (Redkite@onyxnet.co.uk)
Pacio gan wirfoddolwyr yng Nghaerdydd - i ymuno â'r hapus dyrfa hon, am brynhawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830330